**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Andrew RT Davies
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

5 Tachwedd 2025

Annwyl Andrew,

**Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru)**

Yn sgil cyflwyno’r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru) i'r Senedd ar 03 Tachwedd 2025, mae copi o'r datganiad o fwriad polisi ar gyfer y Bil ynghlwm. Darperir y ddogfen hon i gefnogi’r pwyllgor tra’n craffu'r y Bil.

Rwyf yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Datganiad o Fwriad y Polisi

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi amcan o fwriad y polisi presennol ar gyfer defnyddio pwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir gan y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil"), fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 3 Tachwedd 2025. Caiff ei darparu er mwyn helpu Pwyllgorau a'r Senedd i graffu ar y Bil, ac i sicrhau tryloywder mewn perthynas â'r defnydd y bwriedir ei wneud o bwerau dirprwyedig.

Mae'r pwerau a nodir yn y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer mathau eraill o lety ymwelwyr, gan ei gyflwyno fesul cam a'r roi ar waith dros amser; yn ogystal â rhoi hyblygrwydd i wneud newidiadau i dwristiaeth a deddfwriaeth gysylltiedig yn gyflym ac yn ddidrafferth, y mae'r naill a'r llall yn cael ei datblygu'n barhaus. Mae hefyd yn sicrhau hyblygrwydd y polisi manwl a materion gweithredol sydd wrth wraidd y broses o ddatblygu nifer o'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn y ddogfen hon mewn cydweithrediad neu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. Bydd y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau drafft a gaiff eu llunio o ganlyniad i hyn yn destun ymgynghoriad a/neu broses graffu gan y Senedd. Fel y cyfryw, gall rhai elfennau newid yn ystod y broses o'u datblygu a'u rhoi ar waith.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil, fel y nodir isod, ac maent yn fodlon bod eu hangen a bod cyfiawnhad drostynt; ac, mewn perthynas â phwerau gwneud rheoliadau, mae'r cyfiawnhad dros weithdrefn benodedig y Senedd yn cael ei nodi yn nhabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol.

**Trosolwg o'r Bil**

Hwn yw'r ail Fil o ddau sydd, ar y cyd â newidiadau amrywiol eraill i ddeddfwriaeth a pholisi, yn ffurfio rhan olaf pecyn o fesurau sy'n cefnogi ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu y Senedd *"i fwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau"*; a chefnogi a hyrwyddo sector twristiaeth ac economi gynaliadwy yng Nghymru, sy'n gytbwys o ran anghenion cymunedau lleol.

Diben y Bil yw hyrwyddo'r broses o ddatblygu twristiaeth yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn drwy:

- Ailddatgan a moderneiddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ystyried effeithiau cymdeithasol posibl twristiaeth a'i heffaith bosibl ar yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg; a

- Rheoleiddio darpariaethau llety ymwelwyr yng Nghymru drwy:
  - gyflwyno cyfundrefn trwyddedu er mwyn rhoi sicrwydd i ymwelwyr bod y llety yn cyrraedd y safonau a ddisgwylir ganddynt a sicrhau bod y safonau hynny, yn achos llety hunanddarpar, yn cyd-fynd â'r safonau cyfatebol sydd eisoes yn berthnasol i'r sector rhentu preifat yng Nghymru,
  - llunio safon mewn perthynas ag addasrwydd y llety ymwelwyr a rhoi gofyniad contractio ar waith, ac
  - datblygu'r gofrestr a luniwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 i lunio cyfeiriadur o lety ymwelwyr er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr yng Nghymru.

Mae'r Bil yn adeiladu ar ei Ddeddf gysylltiedig, sef Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Ddeddf VARL"), a'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a nodir ynddi, er mwyn gosod sylfaen y ddeddfwriaeth ar gyfer system reoleiddio llety ymwelwyr gadarn a thryloyw yng Nghymru drwy gynllun trwyddedu. Bydd hefyd yn nodi gofynion hysbysebu a marchnata newydd mewn perthynas â'r holl lety ymwelwyr cofrestredig yng Nghymru (nid yn unig y rhai hynny sydd wedi'u nodi fel llety ymwelwyr rheoleiddiedig), yn ogystal â rhoi dyletswydd ar y cyd ar Weinidogion Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i greu cyfeiriadur cyhoeddus o lety ymwelwyr, drwy gyfuno'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi o dan y Bil hwn a'r Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

Bydd ail ganlyniad y Bil hwn yn berthnasol ar gyfer llety ymwelwyr yn y lle cyntaf, a bydd y rheoliad yn cyd-fynd yn agosach â rheoliad y sector rhentu preifat, gan sicrhau bod dull mwy cyson ar waith i wneud yn siŵr bod y safleoedd hynny sy'n debyg o ran eu strwythur a'u nodweddion yn cyrraedd y safonau ac yn cydymffurfio.

**Cyfansoddiad y Bil**

Mae'r Bil yn cynnwys 5 rhan a 2 Atodlen:

<u>Rhan 1</u> – Yn darparu trosolwg o'r Bil ac yn creu Cod Cyfraith Cymru mewn perthynas â thwristiaeth.

<u>Rhan 2</u> – Yn darparu ar gyfer ailddatgan a moderneiddio deddfwriaeth sy'n bodoli a swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â thwristiaeth, gan gynnwys darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth bresennol (ynghyd ag Atodlen 1), a phŵer penodol ar gyfer Cod Ymarfer sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

<u>Rhan 3</u> – Yn darparu ar gyfer rheoleiddio llety ymwelwyr, gan nodi elfennau allweddol sydd eu hangen er mwyn rhoi cynllun trwyddedu ar waith, gan gynnwys:

- Nodi'r cysyniadau allweddol y mae'r gyfundrefn reoleiddio yn seiliedig arnynt, gan gynnwys “llety ymwelwyr rheoleiddiedig” ac “addasrwydd llety ymwelwyr”; yn ogystal â nodi safonau addasrwydd a chreu rhwymedigaeth gytundebol newydd mewn perthynas ag ‘addasrwydd’; a
- Creu'r cynllun trwyddedu a'i weithdrefnau, gan gynnwys ceisiadau, amodau trwyddedau, cydymffurfiaeth a gorfodi, apeliadau, ffioedd, esemptiadau, a rhannu data.

<u>Rhan 4</u> – Yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr, gan gynnwys creu cyfeiriadur o lety ymwelwyr i'r cyhoedd a gofynion hysbysebu a marchnata newydd.

<u>Rhan 5</u> – Yn cynnwys darpariaethau amrywiol, gan gynnwys materion gweithdrefnol yn ymwneud â deddfwriaeth safonol, yn ogystal â dyletswydd canllawiau a phwerau er mwyn darparu gweithdrefnau ar faterion amrywiol, gan gynnwys troseddau, hysbysiadau cosb ac achosion arbennig (e.e. cyrff, partneriaethau, marwolaeth, analluogrwydd, trosglwyddo busnes).

<u>Atodlen 1</u> – Yn nodi'r diwygiadau i Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969.

Atodlen 2 – Yn nodi'r diwygiadau i'r Gofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr (o dan y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016) i sicrhau cysondeb deddfwriaethol a gweithredol rhwng y broses Cofrestru a Thrwyddedu.

**Dogfennau eraill**

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru);
- y Nodiadau Esboniadol i'r Bil; ac
- y Memorandwm Esboniadol i'r Bil.

**At ddibenion y ddogfen hon, mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'u rhoi mewn grwpiau o themâu allweddol, fel a ganlyn:**

| | Testun | Adran | Disgrifiad o'r meysydd dan sylw | Tudalen |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cynllun Trwyddedu – Cwmpas – Estyniad** | 5(1)(b), 6(2), 17(1), 19(3), 39(3) a 40(4) | Pwerau i ragnodi mathau ychwanegol o lety ymwelwyr rheoleiddiedig, diwygio neu ragnodi safonau addasrwydd, amodau'r drwydded a gofynion cymeradwyo, yn ogystal â phwerau i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth a thrwyddedu safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau. | 7 |
| 2 | **Cynllun Trwyddedu – Amodau Trwydded** | 13(2) a 16(1), | Pwerau i wneud darpariaeth ynghylch yswiriant a hyfforddiant, | 11 |
| 3 | **Cynllun Trwyddedu – Gweithdrefnau Ymgeisio a gofynion eraill** | 25(2) a 27(2) | Pwerau i wneud darpariaeth ynghylch ceisiadau adnewyddu a thrwyddedau dros dro. | 13 |
| 4 | **Cynllun Trwyddedu – Cydymffurfio a Gorfodi** | 23(5), 24(2), 26(1) a 54(5) | Pwerau i wneud darpariaeth ynghylch rhybuddion a hysbysiadau dirymu, hysbysiadau adferol, diwygiadau i drwyddedau a hysbysiadau cosb. | 15 |
| 5 | **Esemptiadau rhag y Gofynion Trwyddedu** | 37(2) | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch esemptiadau rhag y gofynion trwyddedu. | 19 |
| 6 | **Ffioedd sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu** | 38(1) | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch ffioedd sy'n gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu. | 20 |
| 7 | **Cymhwyso'r Bil i Achosion Arbennig** | 49, 52(1) a 53(1) | Pwerau i wneud darpariaeth ynghylch partneriaethau, cyrff anghorfforedig, trosglwyddiadau busnes, marwolaeth, analluogrwydd, ac ansolfedd. | 22 |
| 8 | **Darpariaeth Ganlyniadol a Darpariaeth Drosiannol** | 56(1) | Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, neu ddarpariaeth arbed, ac ati. | 24 |
| 9 | **Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr – Cod Ymarfer a Chanllawiau** | 3(1) and 55(1) | Pŵer i baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer mewn perthynas â materion twristiaeth; a dyletswydd i gyhoeddi canllawiau ar Rannau 3 a 4 a'r rheoliadau cysylltiedig. | 26 |

## 1 – Cynllun Trwyddedu – Cwmpas – Estyniad

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 5(1)(b) | Rheoliadau | Pŵer i ragnodi mathau ychwanegol o lety ymwelwyr rheoleiddiedig. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 6(2) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch safleoedd lle y caiff llety ymwelwyr rheoleiddiedig ei gynnig neu ei ddarparu sy'n addas ar gyfer llety ymwelwyr. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 17(1) | Rheoliadau | Pŵer i ragnodi amodau ychwanegol a ddylai fod yn berthnasol i drwyddedau a gyflwynir o dan y Rhan hon. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 19(3) | Rheoliadau | Pŵer i ragnodi gofynion caniatáu ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni cyn i drwydded gael ei chyflwyno. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 39(3) | Rheoliadau | Pŵer i gyrff eraill rannu gwybodaeth at ddibenion y swyddogaethau o dan y Bil. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |
| 40(4) | Rheoliadau | Pŵer i addasu Pennod trwyddedu'r Bil er mwyn sicrhau bod yr amodau presennol yn berthnasol o dan y cyfundrefnau trwyddedu ar gyfer safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau fel y bwriadwyd os bydd y mathau hynny o lety yn cael eu cynnwys ar y cynllun trwyddedu yn y dyfodol. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |

**Diben a bwriad y polisi cyffredin**

Diben y polisi cyffredin ar gyfer y darpariaethau hyn a'r pwerau y maent yn eu cynnwys yw galluogi Gweinidogion Cymru i ehangu cwmpas y cynllun i unrhyw fath o lety ymwelwyr, a phob mathau o lety ymwelwyr, yng Nghymru, os bydd y Senedd o'r farn ei fod yn briodol. Mae'r pwerau yn sicrhau y gellir ehangu ar y diffiniad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig; ac y gellir diweddaru neu addasu rhannau allweddol eraill o'r cynllun trwyddedu i adlewyrchu unrhyw estyniad, gan gynnwys y gofynion addasrwydd, yr amodau trwyddedu y gall fod yn berthnasol, gofynion cymeradwyo ar gyfer ceisiadau trwyddedu a chyrff y gallai Gweinidogion Cymru rannu gwybodaeth â nhw mewn perthynas â'u swyddogaethau trwyddedu. At hynny, mae'r pwerau yn sicrhau hyblygrwydd er mwyn diweddaru ac addasu'r

cynllun dros amser, i sicrhau bod unrhyw newidiadau ar draws y sector llety ymwelwyr yn cael eu nodi, wrth i risgiau, technoleg neu arferion gorau newydd gael eu nodi, neu wrth i ddeddfwriaeth reoleiddio gysylltiedig gael ei diweddaru i sicrhau bod y cynllun yn parhau i ddarparu'r diben bwriadedig.

**Diben a bwriad y polisi unigol**

Mae Adran 5 yn darparu diffiniad craidd o "lety ymwelwyr rheoleiddiedig", sydd wrth wraidd cwmpas gwreiddiol y cynllun trwyddedu. Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 5(1)(b)** yw sicrhau y gellir ehangu ar y diffiniad a'i addasu dros amser. Diben y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw ei ddefnyddio er mwyn ehangu cwmpas y cynllun, drwy ehangu'r hyn a gaiff ei nodi yn y diffiniad o 'lety ymwelwyr rheoleiddiedig', neu er mwyn galluogi'r cynllun i addasu a sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y sector llety ymwelwyr, wrth i fathau newydd o lety ddod i'r amlwg yn y dyfodol.

Mae Adran 6 yn nodi'r cysyniad ar gyfer "addasrwydd llety ymwelwyr", a'r llinell sylfaen ar ei gyfer, sy'n elfen allweddol o'r cynllun trwyddedu, ac yn nodi'r safonau (ar y cyd ag adrannau 7 i 13) y mae'n rhaid i safle sy'n cynnwys llety ymwelwyr rheoleiddiedig eu cyrraedd er mwyn bod yn safle trwyddedig. Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 6(2)** yw sicrhau y gellir gwneud darpariaethau pellach neu wahanol ynghylch y safonau addasrwydd, yn ôl yr angen yn y dyfodol.

Diben y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw osgoi gwahaniaethau â'r safonau rheoleiddio ehangach, oni fydd y Senedd o'r farn eu bod yn briodol, a sicrhau y gall y gofynion a'r safonau barhau'n berthnasol ac yn gyfredol yn yr hirdymor, drwy ddileu neu ddiweddaru gofynion anghyfredol, neu ychwanegu gofynion newydd i gefnogi gwelliant parhaus o ran y safonau ym mhob rhan o'r sector. Mae hefyd yn sicrhau y gellir cynnwys gofynion gwahanol sy'n briodol ar gyfer unrhyw fathau newydd o lety ymwelwyr neu safleoedd y gellir eu cynnwys o fewn cwmpas y cynllun yn y dyfodol, a sicrhau y gellir rhoi gofynion newydd neu ofynion presennol ar waith yn briodol ac yn deg ar fathau gwahanol o lety.

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 17(1)** yw sicrhau y gellir rhagnodi amodau pellach i'w rhoi ar waith ar drwyddedau llety ymwelwyr yn gyffredinol, at ddibenion gwella neu gynnal safonau llety ymwelwyr neu amwynderau, neu er mwyn hyrwyddo twristiaeth; a gellir rhagnodi'r amodau drwy gyfeirio at ddisgrifiadau neu nodweddion amrywiol y llety, y safleoedd, DLlYau, ymwelwyr neu gontractau.

Yn debyg i'r pŵer yn adran 6(2), diben y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw sicrhau bod amodau'r drwydded yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol yn yr hirdymor er mwyn cefnogi gwelliant parhaus o ran y safonau ym mhob rhan o'r sector. Yn benodol, lle mae mathau ychwanegol o lety ymwelwyr neu safleoedd ymwelwyr yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y cynllun, mae'n sicrhau y gellir ychwanegu amodau pellach at y drwydded, a bod amodau newydd neu amodau presennol yn cael eu cymhwyso'n briodol ac yn deg ar gyfer mathau gwahanol o lety, fel y bo'n briodol.

Mae adran 19 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cymeradwyo trwydded. Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 19(3) yw sicrhau y gellir diwygio neu ddiweddaru'r gofynion a'r gweithdrefnau cymeradwyo i adlewyrchu newidiadau o ran gofynion amgylchiadau lle y rhoddir y pŵer o dan adran 17(1) ar waith i gyflwyno amodau pellach ar drwydded. Bwriad y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw diweddaru'r broses gwneud cais a'r gofynion cymeradwyo i adlewyrchu unrhyw amodau newydd a ychwanegwyd o ganlyniad i roi'r pŵer ar waith o dan adran 17, i sicrhau bod gofynion cymeradwyo priodol ar waith, er enghraifft, pe byddai mathau ychwanegol o letyau yn cael eu hychwanegu at gwmpas y cynllun.

Mae adran 39 yn hwyluso prosesau rheoleiddio, gorfodi, a monitro cydymffurfiaeth, drwy sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru, o fewn eu galluoedd fel yr awdurdod trwyddedu, a chyrff cyhoeddus penodedig. Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 39(3) yw diwygio'r rhestr o bersonau a nodir o dan yr adran honno, er mwyn diweddaru, dileu, neu ychwanegu personau neu gyrff pellach yn ôl yr angen yn y dyfodol.

Bwriad y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr perthnasol neu bartneriaid eraill o blaid y broses o weithredu, rheoleiddio a monitro cydymffurfiaeth o dan y cynllun trwyddedu, lle y caiff mathau ychwanegol o lety ymwelwyr eu cynnwys o fewn cwmpas y cynllun yn y dyfodol, neu os caiff amodau ychwanegol eu hychwanegu ato. Mae hefyd yn sicrhau y gellir

diweddaru'r rhestr o bersonau neu gyrff i adlewyrchu unrhyw newidiadau i bartneriaid perthnasol, neu newidiadau i'r sector cyhoeddus neu i'r dirwedd rheoleiddio ehangach, ac ymateb iddynt, i sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cynllun cyfan yn parhau'n effeithlon.

Mae adran 40 yn debyg i adran 17, lle y mae'n darparu ar gyfer cynnwys amodau ychwanegol mewn perthynas â thrwydded llety ymwelwyr, ond fesul achos ac mae'n gyfyngedig i amgylchiadau lle y caiff y pŵer yn adran 5(1)(b) ei ymarfer i ragnodi mathau ychwanegol o letyau ymwelwyr rheoleiddiedig ar safleoedd gwersyllfa a safle carafanau lle mae adran 269 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 1936 neu Ran 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 yn berthnasol (yn y drefn honno). O ganlyniad, diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 40(4)** yw sicrhau y gellir diwygio Pennod 2 o Rhan 3 o'r Bil at ddibenion sy'n gysylltiedig â nodi amodau o'r fath, i sicrhau y gellir addasu'r Bil a'r cynllun trwyddedu i'w rhoi ar waith yn effeithiol mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae'r ddarpariaeth hon, ynghyd â'r ddarpariaeth ddatganedig yn adran 56(2), yn cydnabod safle unigryw safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau. Diben y polisi wrth sicrhau y gellir pennu a rhoi amodau pellach ar y drwydded fesul achos (gyda chaniatâd yr awdurdod lleol perthnasol), yw bod amodau fel y rhai hynny sy'n berthnasol o dan gyfundrefnau trwyddedu presennol ar gyfer safleoedd o'r fath – ond nad yw'n debygol y byddant yn berthnasol i fathau eraill o letyau ymwelwyr, neu'n addas ar gyfer y dull cyffredinol – yn gallu cael eu hatgyfnerthu o dan y Bil a'r cynllun trwyddedu lle y bo'n briodol. Bwriedir i hyn alluogi'r Senedd i ystyried cynnwys y mathau hyn o letyau ymwelwyr o fewn cwmpas y cynllun yn y dyfodol, neu gydgrynhoi'r cyfundrefnau trwyddedu presennol, heb fod angen newid y polisi sy'n sail iddynt na newid y mathau o amodau y mae'r mathau hyn o safleoedd yn ddarostyngedig iddynt yn sylweddol. .

## 2 – Cynllun Trwyddedu – Amodau Trwydded

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 13(2) | Rheoliadau | Pŵer i ragnodi'r hyn sydd wedi'i gwmpasu gan yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, a'r lefel ofynnol o yswiriant. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |
| 16(1) | Rheoliadau | Pŵer i nodi'r gofynion hyfforddiant y dylid eu bodloni er mwyn cael trwydded. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ar waith ar gyfer pob llety ymwelwyr rheoleiddiedig fel y dylid bod iawndal ar gael pe byddai person yn cael anaf neu'n marw o ganlyniad i ddarpariaeth y llety hwnnw, neu mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth honno. Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 13(2)** yw nodi unrhyw fanylion, fel y lefelau gofynnol o yswiriant.

Diben y polisi yw nodi gofynion penodol yr yswiriant ar gyfer amodau'r drwydded hon, unwaith y caiff ystod a chyfansoddiad y safleoedd llety ymwelwyr rheoleiddiedig eu nodi (ar ôl rhoi'r cynllun cofrestru ar waith). Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ofynion a nodir yn briodol ar gyfer yr holl ddarparwyr o'r dechrau un, ac yn sicrhau bod lefel yr yswiriant yn ddigonol i fodloni hawliadau posibl, gan gynnwys nodi gofynion gwahanol ar gyfer mathau neu feintiau gwahanol o letyau ymwelwyr. Bydd hefyd yn sicrhau y gellir addasu'r gofynion hynny dros amser, er enghraifft, yn unol ag unrhyw estyniad o'r cynllun neu brofiadau o hawliadau.

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 16(1)** yw galluogi darpariaeth ynghylch gofyniad lle mae'n rhaid i ddeiliaid trwyddedau gwblhau hyfforddiant fel amod o gael trwydded. Mae hyn yn sicrhau y gellir nodi llinell sylfaen lle mae pob ymgeisydd neu DLlY wedi cael yr un wybodaeth a'i fod, o leiaf, yn meddu ar wybodaeth angenrheidiol am y gofynion o dan y cynllun, neu'n ymwybodol ohonynt, er mwyn sicrhau cysondeb gwell wrth roi gofynion ar waith mewn llety ymwelwyr rheoleiddiedig ledled Cymru. Mae'r pŵer hefyd yn sicrhau y gellir nodi'r cynnwys, y dull darparu a'r deunyddiau, yr eithriadau neu'r ffioedd cysylltiedig, er mwyn gosod gofynion gwahanol ar fathau

gwahanol o lety neu ddarparwyr, ac yn galluogi'r hyfforddiant i ddatblygu ac addasu dros amser, er mwyn parhau'n berthnasol i'r cynllun a'i ofynion a chydymffurfio â nhw.

Diben y polisi yw nodi gofynion sy'n sicrhau bod hyfforddiant yn cwmpasu elfennau allweddol ar y cynllun neu ei ofynion, fel y safonau addasrwydd (e.e. diogelwch tân, cynnal a chadw gwaith trydanol a nwy ac ati), gofynion hysbysebu a'r wybodaeth a ddarperir i ymwelwyr; ochr yn ochr ag arferion gorau allweddol eraill sydd o bosibl wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer. Bwriedir iddo hefyd gynnwys hyfforddiant ar weithredu'r cynllun ei hun, fel hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system, sut i'w rhoi ar waith, a pha ddogfennaeth y gall fod ei hangen, ar gyfer y camau cychwynnol ac unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol. At hynny, bydd y rheoliadau yn esbonio pwy yw'r rhai y mae'n ofynnol iddynt gwblhau'r hyfforddiant, er enghraifft, drwy gysylltu â'r pwerau o dan adran 49 i nodi ar gyfer pwy y mae'r gofyniad yn berthnasol lle y mae'r DLlYau yn bartneriaeth â strwythur mawr neu gymhleth.

O ran datblygu'r hyfforddiant ei hun, bwriad ein polisi yw asesu'r data cychwynnol o'r gofrestr i ddechrau er mwyn nodi cyfansoddiad y garfan o DLlYau perthnasol o bob rhan o'r sector y gall fod angen iddynt gael trwydded ar gyfer eu safleoedd, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch manyleb fanwl yr hyfforddiant, y ffordd y caiff ei ddarparu, neu pwy a fydd angen ei gwblhau ai peidio. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yn y sector i'w ddatblygu, cymaint â phosibl, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn cwmpasu'r materion sy'n ofynnol i fodloni ei ddiben ar gyfer y cynllun heb fod yn rhy feichus, a'i fod hefyd yn ychwanegu gwerth am arian ar gyfer darparwyr.

## 3 – Cynllun Trwyddedu – Gweithdrefnau Ymgeisio a Thrwyddedau Dros Dro

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 25(2) | Rheoliadau | Dyletswydd i wneud darpariaeth ynghylch adnewyddu trwyddedau. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 27(2) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch trwyddedau dros dro. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 25 yn darparu ar gyfer dyddiad dod i ben (fel arfer ar ôl blwyddyn) ac adnewyddu trwyddedau. Diben y ddyletswydd ar gyfer gwneud rheoliadau yn **adran 25(2)** yw sicrhau y gwneir darpariaeth ynghylch y broses o adnewyddu trwyddedau. Gall y rheoliadau hefyd gynnwys darpariaeth ynghylch sicrhau dilysrwydd y drwydded lle y caiff cais adnewyddu ei bennu, yn ogystal â chreu trwyddedau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o dan y rheoliadau.

Bwriad y polisi ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon yw sicrhau y caiff gweithdrefnau a phrosesau gwneud cais am adnewyddu trwydded eu darparu ar gyfer ceisiadau cychwynnol am drwyddedau, mewn ffordd debyg i'r ceisiadau hyn, ac mewn cysylltiad â nhw, fel y nodir yn adrannau 18 i 22 o'r Bil, ond heb fod angen dyblygu gwybodaeth a ddelir gan Weinidogion Cymru eisoes o dan eu swyddogaethau yn y Bil. Bydd y rheoliadau hefyd yn sicrhau, ar gyfer y mwyafrif o achosion, y bydd y drwydded yn ddilys drwy gydol y broses gwneud cais, sy'n destun amodau neu ofynion penodol, fel gofyniad i gyflwyno'r cais cyn dyddiad dod i ben y drwydded bresennol. I ddechrau, ac yn y mwyafrif o achosion, bwriedir i'r drwydded gael ei hadnewyddu'n flynyddol, yn unol â dyddiad dod i ben blynyddol y drwydded fel y nodir ar wyneb y Bil; bwriedir i'r broses ddatblygu dros amser fod mor syml â phosibl, wrth sicrhau y caiff uniondeb y cynllun trwyddedu ei gynnal. Nod bwriadedig y ddarpariaeth hon yw annog a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus, sy'n sicrhau y gellir adolygu addasrwydd llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn rheolaidd, ac annog y broses o adolygu gwybodaeth a ddelir gan ddeiliaid trwyddedau yn rheolaidd.

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 27(2)** yw darparu ar gyfer argaeledd trwyddedau dros dro mewn amgylchiadau lle na ellir gwneud gofyniad cymeradwyo cais am drwydded hyd yma. Bwriad y polisi yw darparu ar gyfer trwyddedau dros dro er mwyn sicrhau bod y cynllun trwyddedu yn ddigon hyblyg i gefnogi parhad busnes, a chynnal tryloywder ac uniondeb y cynllun. Bwriedir i hyn gael ei gyflawni drwy gymeradwyo trwyddedau dros dro ar gyfer amgylchiadau lle y caiff llety newydd ei adeiladu, er enghraifft, neu lle mae DLlY newydd ar safle presennol sy'n cwblhau gwaith adnewyddu mawr i'r llety ymwelwyr. Byddai hyn yn galluogi ymgeiswyr neu DLlYau yn yr amgylchiadau hyn i gynnig neu hysbysebu eu llety ymwelwyr rheoleiddiedig ar sail gyfyngedig, wrth weithio tuag at gydymffurfiaeth lawn â'r cais, y gymeradwyaeth, ac amodau neu ofynion y drwydded. Bwriedir i'r cyfyngiadau hynny gynnwys gwaharddiad o ran darparu'r llety, ac felly gwaharddiad o ran galluogi ymwelwyr i aros, nes y gall y llety fodloni'r holl ofynion a'i fod wedi cael trwydded lawn.

## 4 – Cynllun Trwyddedu – Cydymffurfio a Gorfodi

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 23(5) | Rheoliadau | Pŵer i ddarparu ar gyfer amgylchiadau lle y gall Gweinidogion Cymru rybuddio deiliad trwydded y gellid dirymu ei drwydded, ac amgylchiadau lle mae angen dirymu trwydded ar unwaith oherwydd achos difrifol o dorri'r amodau. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |
| 24(2) | Rheoliadau | Dyletswydd i wneud rheoliadau am hysbysiadau adferol ar gyfer trwyddedau. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |
| 26(1) | Rheoliadau | Pŵer i ragnodi amgylchiadau lle y gellir diwygio trwyddedau a gweithdrefnau perthnasol. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 54(5) | Rheoliadau | Pŵer i nodi lefelau hysbysiadau cosb a'r gweithdrefnau ar eu cyfer y gellir nodi fel dewis amgen i erlyniad am droseddau o dan y Bil. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |

**Diben a bwriad y polisi cyffredin**

Prif ddiben y darpariaethau hyn a'r pwerau sydd wedi'u cynnwys ynddynt, yn bennaf, yw nodi'r gweithdrefnau a'r gofynion manwl sydd wrth wraidd yr elfen gydymffurfio a gorfodi ar y cynllun trwyddedu, yn ogystal â sicrhau hyblygrwydd ar gyfer unrhyw estyniad i'r cynllun yn y dyfodol. O ganlyniad, bwriad y polisi ar y cyd ar gyfer y darpariaethau hyn yw sicrhau y caiff y gweithdrefnau manwl hynny eu datblygu mewn ffordd sy'n galluogi'r cynllun i weithredu, i ddechrau, yn seiliedig ar y broses o lywio, addysgu ac annog cydymffurfiaeth. Lle mae materion o ddiffyg cydymffurfiaeth; p'un a yw'n berson sy'n cyflawni trosedd, neu'n ddeiliad trwydded yn torri un o amodau'r drwydded; bwriedir i bob elfen o ddarpariaethau cydymffurfio a gorfodi y cynllun weithio gyda'i gilydd i ymdrin â materion o'r fath yn briodol, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Bydd y gweithdrefnau yn sicrhau bod y rhai hynny sydd wedi torri amodau eu trwydded neu gyflawni troseddau yn cael rhesymau neu esboniadau, ac yn y mwyafrif o achosion, cânt gynnig cyfleoedd i unioni problemau, neu osgoi atgyfeirio'r mater neu gael eu herlyn, drwy gyflwyno cosb neu hysbysiadau adferol neu rybuddion. Bydd hefyd yn cynnwys cyfnodau o hysbysiadau teg er mwyn iddynt

weithredu, yn ogystal â'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol. A phan fydd amgylchiadau anarferol, argyfyngau neu sefyllfaoedd difrifol iawn yn codi, bwriedir sicrhau bod digon o hyblygrwydd i wneud yn siwr y gellir cymryd camau gweithredu yn brydlon.
Fel y cyfryw, y bwriad yw sicrhau bod y gweithdrefnau yn dryloyw ac yn deg, ond yn ddigon cadarn i gynnal uniondeb y cynllun.

**Diben a bwriad y polisi unigol**

Mae adran 23 yn nodi'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau ar gyfer dirymu trwydded lle mae deiliad trwydded yn torri un o amodau ei drwydded ac mae'n debygol y bydd yr achos hwn o dorri amod yn parhau neu'n digwydd eto, neu lle mae'r deiliad trwydded yn cytuno i'r broses ddirymu. O ganlyniad, diben y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 23(5) yw sicrhau y gellir gwneud darpariaeth lle y gellir rhagnodi amgylchiadau lle y rhoddir hysbysiad neu rybudd o flaen llaw i ddeiliad trwydded y gellir dirymu ei drwydded os yw'n parhau i dorri un o amodau ei drwydded neu os yw dan amheuaeth o wneud hynny'n barhaus; neu lle y bydd ei drwydded yn cael ei dirymu ar unwaith.

Diben y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw sicrhau y caiff darparwyr eu hysbysu am eu rhwymedigaethau ar sail statudol, heb ei adael yn gyfan gwbl i ddisgresiwn gweithredol. Y bwriad felly yw rhagnodi'r amgylchiadau lle y gellir cyflwyno hysbysiad neu rybudd, er enghraifft, am achosion llai difrifol neu fân achosion o dorri'r amodau, neu am yr achos cyntaf o dorri'r amodau. Bydd hyn yn sicrhau y gall y cynllun weithredu ar ddull addysg ac anogaeth fel y cam cyntaf, wrth gynnal hyblygrwydd i ymdrin ag achosion mwy difrifol neu fynych o dorri'r amodau. Ar ben arall y raddfa, bwriedir rhagnodi'r amgylchiadau lle y gellir defnyddio prosesau dirymu ar unwaith. Caiff hyn ei gadw ar gyfer amgylchiadau mwy penodol, er enghraifft, mewn sefyllfaoedd brys neu argyfyngau, neu lle mae lefel yr achos o dorri amodau yn ddigon difrifol fel bod y risgiau i ymwelwyr yn ddifrifol ac na fyddai'n briodol parhau i ganiatáu ymwelwyr yn y llety. Bwriedir rhoi hyn ar waith mewn amgylchiadau lle mae corff rheoleiddio arall wedi cyhoeddi hysbysiad gwahardd fel rheol, ac nid oes ganddynt drwydded gyfreithlon i barhau i weithredu.

Diben y ddyletswydd yn **adran 24(2)** yw ei gwneud yn ofynnol i lunio rheoliadau sy'n darparu'r amgylchiadau lle y dylid cyflwyno hysbysiad adferol, a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth wneud hynny, er mwyn galluogi deiliad trwydded i adfer mater yn ei lety lle mae achos o dorri amodau ei drwydded, cyn rhoi camau dirymu ar waith o dan adran 23. Bwriad y polisi ar gyfer y rheoliadau hyn yw ei gwneud yn

ofynnol i gyflwyno hysbysiadau adferol fel y cam cyntaf wrth ymdrin â'r mwyafrif helaeth o'r amgylchiadau a'r achosion lle mae achos o dorri'r amodau neu lle amheuir bod achos o'r fath, a chynnal y gallu sydd ar waith o dan adran 23(5) fel y nodir uchod i ymdrin â sefyllfaoedd brys neu ddifrifol. Er enghraifft, gellir eu defnyddio lle mae'r achos o dorri amodau yn fater parhaus, fel larwm tân sydd wedi torri. Byddai'n ofynnol datrys y mater o fewn amserlen resymol yn unol â'r hysbysiad, ac mae'n debygol y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded ddarparu tystiolaeth ei fod wedi datrys y mater er mwyn atal unrhyw gamau pellach neu uwchgyfeirio'r mater at yr adran gorfodi. Mae'n bosibl y bydd y rheoliadau hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle y gall yr hysbysiad wahardd ymwelwyr rhag aros yn y llety dros dro nes y caiff yr achos o dorri amodau ei unioni, lle mae'r achos hwn yn peri risg o niwed difrifol i ymwelwyr ond nad yw'n briodol parhau â'r camau dirymu parhaol o bosibl.

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 26(1)** yw sicrhau y gellir gwneud darpariaeth sy'n nodi'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau ar gyfer diwygio trwydded llety ymwelwyr, naill ai wrth i ddeiliad y drwydded wneud cais, neu wrth i Weinidogion Cymru wneud cais o ran eu galluedd fel awdurdod trwyddedu, gan gynnwys pan gellir gwneud addasiadau heb gais neu gytundeb mewn amgylchiadau penodol. Bwriad y polisi ar gyfer y ddarpariaeth hon yw darparu diwygiadau i drwyddedau er mwyn sicrhau hyblygrwydd wrth i ddeiliad y drwydded a Gweinidogion Cymru ddiwygio trwyddedau i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, er enghraifft, lle mae newidiadau i'r disgrifiad neu uchafswm o ran capasiti'r llety a ddarperir yn y safle

Y bwriad hefyd yw darparu y gellir gwneud diwygiadau fel rhan o'r broses gydymffurfio a gorfodi, er mwyn sicrhau hyblygrwydd a thegwch ychwanegol yn y cynllun lle ceir achosion o dorri amodau'r drwydded. Byddai hyn yn darparu proses debyg i'r un ar gyfer dirymiadau, gan gynnwys cysylltu â'r gofynion ar gyfer hysbysiadau adferol. Byddai hyn yn sicrhau y gellir ymdrin ag amgylchiadau lle, er enghraifft, mae problem gydag uned benodol neu fath o lety ar safle na ellir ei datrys; ac er na fyddai'n briodol caniatáu i'r llety hwnnw fod yn drwyddedig o hyd, mae'n bosibl na fyddai'n briodol nac yn rhesymol dirymu'r drwydded ar gyfer y safle cyfan os yw'r mater wedi'i gyfyngu ac nad yw'n effeithio ar rannau eraill o'r safle. Mewn amgylchiadau fel y rhain, gellir diwygio trwydded er mwyn dileu unedau neu fathau penodol o lety oddi ar y drwydded ar gyfer y safle hwnnw, sy'n galluogi deiliad y drwydded i barhau i gynnig a darparu'r llety sy'n weddill heb amhariad.

Yn olaf, bwriedir i ddarpariaeth hefyd ganiatáu unedau ychwanegol neu unedau newydd, yn ogystal â gosod y gweithdrefnau ar gyfer y rhain, neu ychwanegu mathau o lety at drwyddedau presennol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwneud newidiadau ar draws y sector neu i ddeiliaid trwyddedau unigol yn y dyfodol, yn ogystal â phe bai unrhyw estyniad yn cael ei wneud i gwmpas y cynllun ar gyfer mathau eraill o letyau ymwelwyr. Bwriedir iddo hefyd sicrhau y gellir diwygio trwyddedau heb roi anfantais ar ddeiliaid trwydded presennol na'u hatal rhag gwneud gwelliannau, arallgyfeirio neu ehangu'r llety ymwelwyr ar eu safle yn y dyfodol.

Mae adran 54 yn cyflwyno system hysbysiadau cosb fel dull amgen o erlyn am droseddau a gyflawnir o dan y Bil. Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 54(5)** yw nodi'r manylion penodol mewn perthynas â hysbysiadau cosb, gan gynnwys eu ffurf a'u cynnwys, y swm i'w dalu a'r dulliau talu, yn ogystal â'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau er mwyn dileu cosb. Diben y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw sicrhau bod ffordd effeithlon ac effeithiol o orfodi ar gyfer troseddau mewn amgylchiadau penodol, ac i annog cydymffurfiaeth yn y dyfodol o ganlyniad i hynny drwy gynnig y cyfle i osgoi erlyniad drwy dalu swm penodol. Felly, diben y polisi yw rhoi system hysbysiadau cosb dryloyw y gellir ei haddasu ar waith sydd hefyd yn deg ac yn gymesur drwy ddarparu, er enghraifft, lefelau dirwyon gwahanol neu wedi'u graddio sy'n ddibynnol ar y drosedd a graddfa cyflawni'r drosedd honno ac sy'n briodol iddynt. Caiff y pŵer hefyd ei roi ar waith dros amser mewn achosion lle y bydd mathau gwahanol o lety yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cynllun; neu, os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn awgrymu nad yw lefelau'r dirwyon yn rhwystro unigolion rhag peidio â chydymffurfio'n ddigonol, ac felly nad ydynt yn ddigonol i gefnogi uniondeb y cynllun trwyddedu.

## 5 – Esemptiadau rhag y Gofynion Trwyddedu

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 37(2) | Rheoliadau | Pŵer i ragnodi esemptiadau rhag y gofynion trwyddedu. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |

**Diben a bwriad y polisi**

Bwriad y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 37(2) yw sicrhau y gellir gwneud darpariaeth i wneud person neu fath o lety ymwelwyr yn esempt o ddisgrifiad a ragnodir o'r gofynion trwyddedu o dan Bennod 2 o Ran 3 o'r Bil, lle y maent hefyd yn esempt o'r gofyniad i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), yn rhinwedd y rheoliadau a wnaed o dan adran 5(2) y Ddeddf honno. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb wrth roi'r ddwy ddeddfwriaeth ar waith ar gyfer y Bil hwn a Deddf VARL, a'r cynlluniau y maent yn eu sefydlu. Mae bwriad y polisi ar gyfer y pŵer hwn ar waith er mwyn osgoi sefyllfa rhag codi, er enghraifft, lle y mae'r Senedd wedi cytuno y dylai person fod yn esempt rhag y gofyniad i gofrestru o dan Deddf VARL, ond bod y gofynion trwyddedu yn berthnasol iddo o hyd.

## 6 – Ffioedd sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 38(1) | Rheoliadau | Pŵer i osod ffioedd mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu o dan Bennod 2 o Ran 3, neu unrhyw reoliadau a wneir o dan y bennod hon. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd |

**Diben a Bwriad y Polisi:**

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 38(1)** yw sicrhau y gellir gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd am drwyddedau a swyddogaethau cysylltiedig o dan Bennod 2 o Ran 3 o'r Bil, neu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwnnw. Yn benodol, mae'n sicrhau y gellir codi ffioedd cyffredin neu benodol am unrhyw un o'r materion neu'r swyddogaethau a nodir yn y darpariaethau, neu sy'n rhan o'r darpariaethau hynny; er enghraifft, y gallu i osod symiau neu strwythurau ffioedd – gyda symiau ffioedd gwahanol ar gyfer mathau neu feintiau gwahanol o letyau neu DLlYau, er mwyn nodi'r amgylchiadau lle y gall fod ad-daliadau, ildiadau neu ostyngiadau yn y ffioedd hynny, neu ar eu cyfer, yn ogystal â nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer y ffioedd, gan gynnwys y dulliau talu, terfynau amser, cymryd camau adennill ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau am ffioedd.

Bwriad y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw nodi ffioedd trwyddedau blynyddol, yn ogystal â ffioedd ad-hoc eraill ar gyfer materion eraill. Er enghraifft, gellid gosod ffioedd ar gyfer ceisiadau a hyfforddiant (ar y cyd â'r pŵer yn adran 16). Bwriedir i unrhyw ffioedd a gaiff eu gosod fod yn briodol ac yn gymesur, yn ogystal â bod yn ddigonol i dalu'r costau ar gyfer gweinyddu'r swyddogaeth y mae'r ffi yn gysylltiedig â hi, ac yn y pen draw, i dalu'r costau ar gyfer gweinyddu'r costau cyffredinol, ynghyd â'r ffi flynyddol am drwydded. Caiff strwythur ffioedd priodol ei ddatblygu yn unol â'r model adennill costau a ddisgrifiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a bydd angen gosod y ffioedd ar lefel sy'n adlewyrchu costau disgwyliedig gweinyddu'r cynllun.

O ran y ffi flynyddol am drwydded, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r amcangyfrif gorau o £75 ar gyfartaledd i bob safle. Bydd angen pennu'r strwythur ar gyfer y ffi trwydded unwaith y caiff cyfansoddiad carfan llety ymwelwyr rheoleiddiedig y sector ei ddeall o'r data cofrestru. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu strwythur sy'n ystyried costau rhedeg amcangyfrifedig y cynllun, ac sy'n deg ar gyfer

pob deiliad trwyddedau. Er enghraifft, bydd angen ystyried a yw gosod ffi benodedig ar gyfer pob safle yn deg ac yn gymesur ar gyfer DLlYau neu ddeiliaid trwyddedau, o ystyried meintiau a chyfansoddiadau eang ac amrywiol y safleoedd ar draws y sector. Fel y cyfryw, gall y ffi fod yn seiliedig ar y math o safle neu'r llety y mae'n ei gynnig, er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfradd safonol i bob uned o lety ymwelwyr, neu drwy ddefnyddio bandiau neu raddfeydd, gan ddibynnu ar nifer yr unedau sydd ar y safle. Caiff yr opsiynau hyn eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r rheoliadau, ac mae gofynion yr ymgynghoriad yn sicrhau y bydd y sector yn cael cyfle i leisio ei farn. Bydd y pŵer hefyd yn sicrhau y caiff y strwythur ffioedd ei adolygu a'i ddiwygio, yn ôl yr angen, pe bai mathau eraill o letyau yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y cynllun yn y dyfodol.

## 7 – Cymhwyso'r Bil i Achosion Arbennig

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 49 | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch y ffordd y mae'r Bil yn ddilys i bartneriaethau neu gyrff anghorfforedig. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 52(1) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth mewn perthynas â marwolaethau, analluogrwydd neu ansolfedd darparwr llety ymwelwyr. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |
| 53(1) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth i sicrhau parhad wrth gymhwyso'r Bil lle mae DLlY yn fusnes a gaiff ei drosglwyddo, neu sydd wedi cael ei drosglwyddo, fel pryder parhaus. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd |

**Diben a Bwriad y Polisi:**

Mae'r ddarpariaeth ym mhob un o'r adrannau hyn adlewyrchu'r ddarpariaeth yn y pwerau cyfatebol o dan Ddeddf VARL. Bwriad y polisi ar gyfer y pwerau hyn, yn gyffredinol, yw sicrhau hyblygrwydd ar gyfer Gweinidogion Cymru er mwyn gwneud yn siŵr y gellir ystyried y gweithdrefnau a'r prosesau ym mhob un o'r senarios amrywiol hyn mewn modd cyfannol fel rhan o'r Bil a Deddf VARL; er mwyn cysoni'r goblygiadau ymarferol ar gyfer y cynlluniau cofrestru a thrwyddedu sydd wedi'u rhoi ar waith o dan y Bil a'r ddeddf hon; a, sicrhau y gellir rhoi gweithdrefnau ychwanegol ar waith mewn perthynas â safleoedd trwyddedig neu ddeiliaid trwyddedau heb amharu ar y cynllun cofrestru. Nodir diben a bwriad y polisi ar gyfer pob darpariaeth unigol fel a ganlyn:

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 49** yw ychwanegu at y Bil, ei ddiwygio neu egluro sut y mae'r Bil yn berthnasol i bartneriaethau a chyrff anghorfforedig, gan sicrhau hyblygrwydd er mwyn mynd i'r afael â strwythurau busnes newydd neu anrhagweladwy. Gall strwythurau partneriaethau a chyrff anghorfforedig fod yn gymhleth, ac mae'n bosibl na fydd y darpariaethau cychwynnol yn cwmpasu pob senario wrth i arferion busnes ddatblygu. Bwriad y polisi ar gyfer y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r fframwaith deddfwriaethol a'r cynllun i ymateb i fathau newydd o drefniadau busnes, wrth i faterion ymarferol godi wrth roi'r Bil neu Ddeddf VARL ar waith ar gyfer partneriaethau a chyrff anghorfforedig yn ystod y broses gymhwyso neu dros amser, ac i atal unrhyw fylchau rhag datblygu a allai danseilio effeithlonrwydd y cynllun trwyddedu. Mae hefyd yn sicrhau hyblygrwydd wrth

gadarnhau rolau neu gyfrifoldebau ar gyfer gofynion penodol o dan y cynllun trwyddedu lle ceir amwysedd oherwydd strwythurau cymhleth neu fawr, er enghraifft, drwy gysylltu â'r pŵer o dan adran 16, er mwyn nodi pwy ddylai gwblhau hyfforddiant.

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 52** yw mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae DLlY yn marw, yn mynd yn analluog, neu'n ansolfent. Bwriad y polisi yw nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau y byddai'n rhaid eu dilyn mewn sefyllfaoedd o'r fath (gan gynnwys, er enghraifft, lle y mae ystâd DLlY yn destun profiant) a'u hegluro, yn ogystal â sicrhau y gellir parhau i ddarparu'r llety wrth i drefniadau pellach gael eu gwneud ar gyfer y llety. Heb ddarpariaeth o'r fath, byddai ansicrwydd o ran rhwymedigaethau ac atebolrwyddau'r DLlY, ei gynrychiolwyr a'i deulu, yn ogystal â rhwymedigaethau ac atebolrwyddau'r ymwelwyr, ac o ran y ffyrdd y gallant barhau i ddarparu'r llety ymwelwyr, p'un a yw hynny'n bosibl ai peidio, yn y tymor byr.

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 53** yw nodi a sicrhau eglurder ynghylch y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal parhad pan gaiff busnes ei drosglwyddo i berson arall fel pryder parhaus, gan gynnwys y broses o drosglwyddo trwyddedau, ac unrhyw rwymedigaethau ac atebolrwyddau perthnasol. Y nod yw sicrhau parhad o ran darpariaeth y llety, a gwneud yn siŵr nad oes unrhyw fylchau rheoliadol ac na chaiff atebolrwydd ei golli, gan sicrhau bod uniondeb y cynllun trwyddedu yn cael ei gynnal mewn amgylchiadau o'r fath.

## 8 – Darpariaeth Ganlyniadol a Darpariaeth Drosiannol

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 56(1) | Rheoliadau | Pŵer i wneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil neu sy'n atodol i'r Bil, neu sy'n ganlyniadol i'r Bil, neu wneud darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil. | Mae gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn cynnwys diwygio, addasu neu ddiddymu unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol. Fel arall, roddir gweithdrefn annilysu'r Senedd ar waith |

**Diben a bwriad y polisi**

Diben y pŵer gwneud rheoliadau yn **adran 56(1)** yw sicrhau y gellir gwneud darpariaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, neu sy'n atodol, neu'n ganlyniadol iddo, i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag ef, ac i addasu, diwygio, diddymu, neu ddirymu darpariaethau o dan y Bil hwn neu ddeddfiadau eraill. Pŵer gwneud rheoliadau safonol a rheolaidd yw hwn, yn benodol ar gyfer deddfwriaeth gymhleth. Mae'n gyson â Deddfau eraill y Senedd, ac wedi'i ddylunio i sicrhau y gellir rhoi'r Bil ar waith yn effeithiol. Mae ei brif ddibenion yn cynnwys y canlynol:

- <u>Darpariaeth Gysylltiedig, Atodol neu Ganlyniadol:</u> Er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu amgylchiadau technegol, mân faterion neu amgylchiadau neu faterion neu amgylchiadau anrhagweladwy sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.
- <u>Darpariaeth Drosiannol neu Ddarpariaeth Arbed:</u> I reoli'r broses o drosglwyddo i'r fframwaith deddfwriaethol newydd a sefydlwyd gan y Bil.

Mae hefyd yn nodi'n glir o dan adran 56(2), lle y gwneir rheoliadau o dan adran 5(1) i ragnodi disgrifiad o lety ymwelwyr (rheoleiddiedig) sy'n berthnasol i adran 269 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936, neu  Ran 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 (safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau, yn y drefn honno); mae'r pwerau yn adran 56(1) yn cynnwys y gallu i ddatgymhwyso'r

darpariaethau hynny mewn perthynas â Chymru. Mae'r darpariaethau datganedig hyn, ochr yn ochr â'r pŵer cyffredinol i ddiwygio'r Bil neu ddeddfiadau eraill yn angenrheidiol at ddibenion gweithredu'r Bil, ac i sicrhau eglurder, cysondeb a chydlyniaeth drwy'r llyfr statud. Lle y defnyddir y pwerau hyn i ddiwygio'r Bil neu ddeddfwriaeth sylfaenol arall, rhoddir cyfle i'r Senedd graffu ar y rheoliadau hynny a phleidleisio drostynt.

Diben y polisi ar gyfer y pŵer hwn, yn y lle cyntaf, yw sicrhau y gellir datblygu trefniadau trosiannol a'u rhoi ar waith i gefnogi'r broses o roi'r Bil ar waith, gan sicrhau y gellir gwneud hynny'n briodol ac yn effeithiol, a heb unrhyw anfantais, gan sicrhau parhad y ddarpariaeth a lleihau achosion o darfu ar DLlYau unigol neu ymgeiswyr, ymwelwyr, neu'r sector cyfan, cymaint â phosibl. Er enghraifft, sicrhau y gall DLlYau presennol y byddai'n rhaid iddynt feddu ar drwydded barhau i weithredu yn ystod y cyfnod gweithredu, yn benodol wrth i'r cynllun a'i weithrediadau gael eu hymgorffori ac wrth ystyried y ceisiadau.

Yn y tymor hwy, y bwriad yw ei ddefnyddio at ddibenion tebyg i'r rhai hynny a nodir uchod, wrth i'r cynllun ehangu ar gyfer mathau eraill o letyau ymwelwyr a phan fydd hynny'n mynd rhagddo yn y dyfodol, ar y cyd â'r pwerau a nodir o dan adran 1 – 'Cynllun Trwyddedu – Cwmpas – Estyniad' ar dudalen 7. Y tu hwnt i'r amgylchiadau hynny, dim ond ar gyfer y materion canlynol y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio:

- egluro amwyseddau neu wneud addasiadau technegol i sicrhau bod y Bil yn gweithredu yn ôl y bwriad;
- gwneud newidiadau i ymdrin ag amgylchiadau anrhagweladwy sy'n codi wrth roi'r Bil neu Ddeddf VARL ar waith, neu o ganlyniad i hynny,
- gwneud newidiadau i ymdrin â diwygiadau neu ddiweddariadau i ddeddfwriaeth arall a all effeithio ar effeithlonrwydd y Bil neu'r cynllun trwyddedu; neu,
- o ganlyniad i ddatblygu'r rheoliadau a ddarparwyd yn y pwerau mewn rhannau eraill o'r Bil.

## 9 – Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr – Cod Ymarfer a Chanllawiau

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pwerau | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 3(1) | Cod Ymarfer | Pŵer i gyhoeddi cod ymarfer mewn perthynas â chanllawiau arfer gorau ar dwristiaeth. | Dim gweithdrefn |
| 55(1) | Canllawiau | Dyletswydd i gyhoeddi canllawiau ar weithredu'r gyfundrefn reoleiddio a luniwyd gan y Bil. | Dim gweithdrefn |

**Diben a bwriad y polisi**

Diben y pŵer yn **adran 3(1)** yw darparu pŵer datganedig i gyhoeddi Cod Ymarfer fel rhan o'r broses o ailddatgan y swyddogaethau o dan Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969, lle mae bwriad y polisi yn cynnwys datblygu cyfres eang o ganllawiau arfer gorau ar gyfer busnesau a darparwyr llety ymwelwyr ar draws y sector twristiaeth yng Nghymru.

Diben y ddyletswydd o dan **adran 55(1)** yw sicrhau y caiff canllawiau eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Rhannau 3 a 4 o'r Bil, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Rhannau hynny. Mae Rhannau 3 a 4 yn cynnwys y darpariaethau y caiff y cynllun trwyddedu ei roi ar waith ar eu cyfer at ddibenion y rheoliad ar gyfer llety ymwelwyr. Bwriad y polisi yw sicrhau y caiff y canllawiau hyn eu darparu i roi eglurder, arweiniad a chymorth i ddarparwyr, a'r rhai sy'n gysylltiedig â darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig yng Nghymru, neu sy'n cynnig darparu llety o'r fath. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys yr agweddau amrywiol ar weithredu'r cynllun trwyddedu, fel y prosesau, y gofynion a'r canlyniadau ar gyfer y rhai nad ydynt yn cydymffurfio, ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau perthnasol ar yr agweddau allweddol, fel y safonau addasrwydd a thelerau'r contract, er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth. Bydd y canllawiau hefyd yn cael eu diweddaru yn unol ag unrhyw ddiweddariadau i'r cynllun, neu unrhyw estyniad iddo, neu i'w ofynion dros amser.

Ar ôl rhoi'r cynllun trwyddedu ar waith, bwriedir i'r polisi sicrhau bod y canllawiau ar y cynllun trwyddedu ac unrhyw Godau Ymarfer mewn perthynas â thwristiaeth yn sefyll ochr yn ochr yn y pen draw, er mwyn creu cyfres unigol o wybodaeth, canllawiau ac arferion

gorau ar gyfer busnesau a darparwyr twristiaeth presennol a darpar fusnesau a darparwyr o bob rhan o'r sector yng Nghymru. Bwriedir i'r polisi wneud y canlynol:

- Cefnogi'r rhai hynny sy'n ymwneud â darparu neu'n cynnig darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig drwy gwmpasu'r canllawiau statudol ar drwyddedu â'r rheoliadau ar gyfer llety ymwelwyr yn ôl yr angen o dan adran 55;
- Cefnogi'r rhai sy'n darparu neu'n cynnig darparu mathau eraill o letyau ymwelwyr (dim lletyau hunanddarpar rheoleiddiedig), drwy godi ymwybyddiaeth o safonau a gofynion y cynllun ymysg rhannau eraill o'r sector llety ymwelwyr fel enghraifft o arfer gorau, ni waeth os caiff unrhyw estyniadau eu gwneud i'r cynllun yn y dyfodol;
- Cefnogi busnesau a darparwyr atyniadau, amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i dwristiaid yng Nghymru, yn ogystal â llety ymwelwyr, drwy ddarparu canllawiau arferion gorau ar faterion ehangach fel y rhai hynny a gaiff eu hawgrymu o dan adran 3(2) o'r Bil;
- Cefnogi busnesau a darparwyr atyniadau, amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i dwristiaid yng Nghymru, yn ogystal â llety ymwelwyr, drwy ddarparu gwybodaeth neu ganllawiau eraill, neu eu cyfeirio atynt, er mwyn hyrwyddo a gwella eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth o arferion gorau neu ofynion statudol perthnasol eraill o dan ddeddfwriaeth neu gyfundrefnau rheoliadol eraill, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw; a
- Darparu gwybodaeth i ymwelwyr a'r cyhoedd am y cynllun trwyddedu, y safonau gofynnol ar gyfer llety ymwelwyr rheoleiddiedig yng Nghymru, a'r cyfeiriadur llety ymwelwyr cyhoeddus, er mwyn hyrwyddo tryloywder a chodi ymwybyddiaeth, a gwella effeithlonrwydd y cynllun wrth wneud hynny.

Gyda'i gilydd, bydd y gyfres o wybodaeth a'r canllawiau hyn yn helpu i lywio safonau ym mhob rhan o'r sector twristiaeth ac economi ymwelwyr, ac yn cefnogi swyddogaethau ehangach Gweinidogion Cymru wrth hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu twristiaeth yng Nghymru.